

Cofnodion y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd yn
Neuadd y Dref, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, nos Lun, 11 Medi 2017 am 7:30p.m.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Keiran Allsopp-Robson, James Bryan, Gavin Harris, Anne Roberts ac Emrys Wynne.

19. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Ian Lewney a Dave Snape.

20. DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

21. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

PENDERFYNWYD: *cadarnhau bod y cofnodion a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf 2017 yn gywir.*

22. MATERION YN CODI

Cysylltu gyda chwmni Moseley - Paentwyr ac Addurnwyr i gael diweddariad ynghylch dyddiad arfaethedig ailbaentio'r parc sgrialu.

23. PLACIAU'R MABINOION

Ystyriodd yr aelodau ddyfodol placiau'r Mabinogion a roddwyd i'r dref gan Neil Dalrymple, a gadwyd yn ddiogel yn y llyfrgell hyd yma, ac awgrymwyd y gellid eu harddangos mewn ardal gymunedol yn yr ysgolion newydd ar safle Glasdir neu fod potensial i'w harddangos yn yr Hen Lys.

PENDERFYNWYD: *cadw'r placiau mewn cof a chadw llygad ar y sefyllfa o ran y llyfrgell.*

24. DIWEDDARIAD YNGHYLCH Ffordd GLASDIR

Bu'r aelodau'n ystyried y sefyllfa ddiweddaraf, lle mae'n ofynnol cael 6 arwydd ffordd. Holodd yr aelodau lle byddai'r arwyddion yn cael eu gosod.

PENDERFYNWYD: *bod y Maer a'r Cynghorydd Emrys Wynne yn cyfarfod gyda swyddogion Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych i drafod hyn ymhellach.*

25. DIWEDDARIAD YNGHYLCH LLWYBR CWNINGAR Y CASTELL

Rhannodd y Clerc neges e-bost oddi wrth Adrian Walls, Rheolwr Gwybodaeth Priffyrdd, Cyngor Sir Ddinbych, yn hysbysu na lwyddwyd i gytuno pwy oedd yn gyfrifol am unioni'r difrod i'w wal ac, o dan yr amgylchiadau, roedd Cyngor Sir Ddinbych wedi gwneud peth gwaith i ddiogelu'r deunydd rhydd. Byddai'r gwaith trwsio dros dro yma'n ddigonol i ganiatáu ailagor y llwybr yr wythnos hon, ond nid ellir gosod unrhyw seddi wrth ymyl y wal nes bo swyddogion yn fodlon bod y chwydd presennol yn y wal yn sefydlog.

PENDERFYNWYD: *holi a fedr Cyngor Sir Ddinbych gyflawni'r gwaith angenrheidiol a hawlio'r costau'n ôl gan y perchennog.*

26. ADOLYGU MANNAU CHWARAE RHUTHUN

Cyflwynodd y Cynghorydd Gavin Harris fap o'r ddarpariaeth chwarae sydd ar gael yn Rhuthun, a chadarnhaodd yr aelodau bod y lleoliadau'n gywir. Cynigiodd dynnu lluniau o bob lleoliad i'w drafod ymhellach yn y cyfarfod nesaf. Hefyd crybwyllodd y posibilrwydd o ddarparu offer ffirwydd awyr agored addas ar gyfer oedolion a phlant, ar hyd llwybr Rhesdai'r Rheilffordd, er enghraifft.

PENDERFYNWYD: *trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod nesaf.*

27. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *mai dyddiad y cyfarfod nesaf y Pwyllgor fyddai nos Lun, 9 Hydref 2017 am 7:30pm.*